The site content has changed very little, apart from the routine periodic updates such as the magazine. Any suggestions for additions or amendments to the site will be gratefully received. Likewise, newsworthy items can always be posted very quickly. Plans are in train to reorganise the webinar archive for easy access, and to compile an electronic library of individual Association learning materials that are suited to wider distribution.

The webmaster also administers WBKA mail addresses – the year has seen repeated phishing attempts on some of these which are almost always routinely intercepted by common sense. Nevertheless, everyone is reminded to treat unusual electronic approaches with caution: we would far prefer to be alerted of something that turns out to be innocent than to have blameless individuals sucked into a scam.

WBKA had been bumping its head against its provider's storage quota but this has been solved by buying more space at very modest cost. Nevertheless, most of our space is taken by individual mailboxes. Nobody is ever asked to delete anything that is not securely duplicated elsewhere, but mailboxes are not a good place to use as a primary archive. Contact the webmaster at any time for guidance in this area.

Non-Native Invasive Species

The Management Team decided in 2024 that the WBKA should appoint an Invasive Non-Native Species Officer from among its Trustees to lead on Yellow Legged Hornet (Asian) activity in Wales. The initial discussion was around appointing an Asian Hornet lead but given that Small Hive Beetle is now present in Europe and Tropilaelaps in Northern Europe it was decided that the role should be broadened / future proofed. Policy and guidance on Varroa would continue to be led by Wally Shaw.

The strategy of the WBKA response to the potential threat posed by the Yellow Legged Hornet to beekeeping, beekeepers and biodiversity in Wales was to ask Associations to appoint a Yellow Legged Hornet Coordinator and verifiers to ensure, as far as possible, that reports for sighting could be corroborated.

There have been no reported sightings in Wales or near to its borders but instances have crept closer, one in Runcorn not far from the Welsh border and one on Merseyside as well as two in Southern Ireland. The sheer numbers of nests destroyed in England in 2025 – 162 is more than double the number in 2023 – 72 which was the previous worst year and increases the risk of spread. The hard

wet winter of 2023/24 is thought to have limited the survival of YLH mated queens and it is to be hoped that 2025/26 winter will do the same. The approach adopted by the WBKA is to continue with the Coordinator/verifier strategy and the YLH Coordinators Committee has met six times in 2025 and general attendance has been more consistent and constructive than in the past. The last meetings have resolved that each Association should now recruit and train verifiers and observers and systematically place bait stations and/or selective traps form late February 2026 to look for YLH queens which may have survived the winter. Guidance has been sent to both Association Coordinators and Association Secretaries. Articles and updates on the YLH have also been published in every issue of the Welsh Beekeeper in 2025. ER2 through BDI would help with communication and mapping.

Observations by beekeepers alone would be insufficient in a country like Wales with a sparse population so it is very important that we continue to do what we can to raise awareness in the general population and national organisations of how to identify and report sightings of the YLH.

To help with this Paul Pearce and his colleagues in Meirionydd have produced a webinar for guidance which is available for anyone to use. In addition, they have also produced a series of one page guides for verifiers and monitors.

Technical Officer

I am not aware of any notable developments in Wales in 2025. An increase in the number of EFB cases was reported by the Regional Bee Inspector but cases of AFB were low. There was a huge increase in the number of Yellow Legged Hornet, mostly in S and SE England but none in Wales. This placed a heavy burden on the Bee Inspection Service but I am not clear to what extent this detracted from other duties.

Honey Crop

A period of good weather in April-May resulted in the best crop of spring honey for some years but the main crop was limited by drought conditions in most areas.

Varroa Resistance

Stephen Martin spoke on the subject at the WBKA Convention in 2025, For those wanting more detail on the subject the book published by Northern Bee Books by Stephen Riley (***The Honey Bee Solution - A practical guide to beekeepers***)is the best source of information. However, this not an easy road to take, especially for the beekeeper who only has a small number of colonies and does not want to risk losing them. It is difficult to advise them what to do. The advice still given by the National Bee Unit (NBU) is to treat colonies to keep the population of mites below danger level. Anybody who wants to follow non-treatment practice needs to do it with caution and a full understanding of the process. The WBKA will be issuing guidance during the course of 2026.

Spray Liaison

There has not been a direct response from the NBU or the authors of the Government spray guide to our requests to update the Welsh Spray contact mechanism but the various Govt documents showing contact points for spray liaison have been amended to reflect contact with the WBKA via the WBKA website. This change suggests our requests have been actioned

if not acknowledged. We are not aware of any spraying issues during 2025 that have not been managed by existing mechanisms.

The Management Team (MT) would still like to recruit a spray specialist if there is one amongst our membership willing to assist the MT with this small but essential task.

BHAF (Bee Health Advisory Forum)

Bee Health Advisory Forum (BHAF)

The Bee Health Advisory Forum is a DEFRA sponsored group made up of representatives of all the main organisations involved with beekeeping in England and Wales. The Forum includes DEFRA, FERA, APHA, The National Bee Unit, the BBKA, the Bee Farmers Association, BDI and ourselves in the WBKA. The objective is to work together to develop and provide the best guidance on bee health to beekeepers of all types. The BHAF held 4 online meetings where the WBKA was represented (all)

The WBKA has been represented by two Trustees of the WBKA – Paul Pearce and John Bowles.

The Forum also reported on the updating of leaflets and Advisory sheets on Beebase. This is now a valuable source of beekeeping information. The benefits of sharing information between Beebase and eR2 was also discussed.

A new addition has been the presentation at each meeting on a recent scientific paper on Bee pests or diseases. One of those was on Tropilaelaps which reportedly continues to be spreading slowly across northern Europe. Last year I reported that it was not yet considered to be an imminent risk but ongoing research indicates that it may enter the UK in the next 4 to 5 years. Research is ongoing in the UK on this.

Another function of the Forum is the development and monitoring of progress against the Healthy Bees Plan 2030 which applies to both England and Wales. We are now halfway through the 10 year plan and progress and a review indicates that progress in Wales is in line with expectations

The last review noted that the WBKA had carried forward the objectives under the plan through:

*The provision of new educational booklets as well as the reprovision of existing booklets

*The webinar series

*Encouragement of beekeepers to take the Basic Certificate including the recruitment of two new Assessors

*Increasing the numbers holding the Bee Health Certificate

*Evaluating the NDB Teaching Beekeeping Course from those who have undertaken it.

Work was started last year to examine the density of honey bee populations in the UK.

Given the concerns expressed by some organisations regarding the competition between Honey bees and other native bees we await the results of this research with interest.

In addition to the formal BHAF meetings Paul Pearce and John Bowles met separately with Rebekah Clarkson of APHA and Kathleen Carroll of the Welsh Government on the 16th September mainly to discuss the progress of implementation of the Healthy Bees Plan 2030 in Wales. Progress was explained and during the course of the meeting we also asked for confirmation that

should the YLH make an incursion into Wales we would receive the same support as that currently provided in England. The response was that on the basis of current knowledge there would be no differentiation made between the two countries.

.

Pollinator Taskforce

The first meeting of the year was held in-person at the offices of the Bannau Brycheiniog National Park in Brecon, where a range of speakers gave presentations covering: volunteering to help pollinators, biodiversity in the planning process, Wild Spaces projects to help butterfly conservation, wildflower seed harvesting within the Bannau Brycheiniol National Park, and the UK Pesticides National Action Plan and its implementation in Wales. The meeting concluded with a guided tour of Ty Mawr Farm, near Brecon.

The final meeting of the year concerned the work of various organisations involved in landscape conservation initiatives and their importance to pollinators.

CONBA (Council of National Beekeeping Associations - UK)

There were two meetings of CONBA during the year in March and October at which Selwyn Runnett represented the WBKA. The topics discussed were:

- The state of honey markets in both the UK and the EU
- Honey quality and adulteration
- Winter colony losses
- Importation of queens, pests and diseases (including the incidence of AFB and EFB and the threat from the yellow-legged hornet)
- IMYB 2026 (International Meeting of Young Beekeepers)
- Apimondia 2025 (held in Copenhagen)

NDB (National Diploma in Beekeeping)

There was no meeting of NDB in 2025 that the WBKA was invited to.

Royal Welsh Agricultural Show (RWAS)

With the move to a new area within the showground a new chair was elected for 2025-2027: Chris Fairhurst.

The following was discussed:

- Composition of Committee
- The new position and arrangements in the horticulture village (awaiting updates for 2026).
- Possibility of an area of live bees (additional to observation hive)
- 2026 Honey Show Schedule – classes, rules, judges and prizes. The finalised schedule to be emailed to the WBKA secretary to be sent out to WBKA associations (and members).

- 2026 Show pricing of honey

Archive.

The WBKA Archives continue to be held at the National Library of Wales in Aberystwyth and on computer. Both are updated regularly.

APPENDED REPORTS

Appendix 1: Membership 2025

Appendix 2: Accounts Financial Year 2025

Appendix 3: 2025 Year End and 2026 Budget

Declaration: The Trustees declare that they have approved the trustees' report above

Signed on behalf of the charity's trustees.

Signature:

Full name: Selwyn Runnett

Position: Chairperson

Date:

THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION

CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Established/Sefydlwyd 1943 Registered Charity/Elusen Gofrestredig – No/Rhif 509929

Adroddiad Blynyddol

1 Ionawr 2025 i 31 Rhagfyr 2025

Tim Rheoli'r Ymddiriedolwyr:

Cadeirydd	**Selwyn Runnett (etholwyd CCB 2025)**
Is-Gadeirydd	**Paul Pearce** (etholwyd CCB 2025)
Trysorydd	**Graham Wheeler** (ailetholwyd CCB 2024)
Ysgrifennydd Cyffredinol	**Jenny Shaw** (ailetholwyd CCB 2023)
	David John Bowles (ailetholwyd yn Ymddiriedolwr CCB 2023)
	Keith Davies (ailetholwyd CCB 2023)
	David Grace (etholwyd CCB 2022, ymddeolodd CCB 2025)
	Alan Burford (etholwyd CCB 2024, ymddeolodd 31 Mai 2025)
	Ceri Joyner (etholwyd CCB 2025)
	Wendy York (cyfetholwyd Ebrill 2025)

Swyddogion:

Llywydd	Jill Wheeler (etholwyd CCB 2024)
Is-lywyddion	Fred Eckton
Ysgrifennydd Aelodaeth	Trish Calderbank
Ysgrifennydd Cofnodion	swydd wag
Ysgrifennydd Digwyddiadau	Jill Wheeler
Ysgrifennydd Arholiadau	Liz Childerley (ymddeolodd CCB 2025)
	Ceri Joyner (penodwyd Ionawr 2025)
Rheolwr y Wefan	Roger Boyle
Golygydd	Basil Wolf
Is-olygydd Cymraeg	Elin Meek
Prawfddarllenydd	Chris Clarke
Swyddog Technegol	Wally Shaw
Swyddog Yswiriant	John Bowles
Swyddog Rhywogaethau Estron	Goresgynnol – John Bowles
Archif CGC	Karen Pratt
Swyddog IMYB	swydd wag
Swyddog Ysgolion	Sue Taylor

Aelodau Arbenigol:

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
BIBBA (Cymdeithas Gwella Gwenyn a Magwyr Gwenyn)

Noddwyr:

Yr Athro Robert Pickard, FRSB, FRSM, FLSW
Meistr The Worshipful Company of Wax Chandlers

Mae pob un o Ymddiriedolwyr a swyddogion CGC yn rhoi ei amser yn wirfoddol heb dderbyn tâl neu fanteision eraill. Mae CGC yn ddyledus i'r gwirfoddolwyr hyn am eu hewyllys da a'u hymdrechion parhaus ar ran y Gymdeithas.

Ein Nodau a'n Hamcanion:

Annog, gwella a hyrwyddo cadw gwenyn ledled Cymru drwy:

- ddatblygu cydweithredu ymysg pob gwenynwr a chyfnewid syniadau a phrofiadau,
- gwella safon cadw gwenyn drwy:
  i. gyhoeddi llenyddiaeth,
  ii. darparu a rhoi cymorth i ddarparu cymhorthion a deunyddiau addysgol am gadw gwenyn,
  iii. hybu hyfforddi a chymhwyso gwenynwyr,
- trefnu arholiadau cenedlaethol ar lefelau amrywiol,
- annog y gymuned i gymryd rhan mewn arsylwi a dysgu am wenyn yn ddiogel, a dod i werthfawrogi gwerth gwenyn yn yr amgylchedd.

Sut mae'r Elusen yn cael ei Llywodraethu a'i Rheoli

Llywodraethu

Mae CGC yn ymroi i ddilyn y Canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau i sicrhau ei bod yn cael ei llywodraethu'n effeithiol ac yn cydymffurfio a'i Dogfen Lywodraethu a Chyfraith Elusen, gan gynnwys canllawiau ar fudd cyhoeddus. Yn 2026 bydd yn dechrau adolygu sut mae'n cael ei llywodraethu er mwyn adlewyrchu'r Cod Llywodraethu Elusennau 2025 a bydd hefyd yn ystyried defnyddio Fframwaith Rhagoriaeth elusennau fel offeryn i feincnodi a gwella ei llywodraethu a'i gweithdrefnau a'i phrosesau rheoli mewnol ymhellach.

Yn ystod 2025 mae Tîm Rheoli'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried mater Cymdeithas Gwenynwyr Cymru yn dod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (Charitable Incorporated Organisation (CIO)). Penderfynwyd nad oedd angen gwneud hyn ar hyn o bryd ond y byddwn yn cadw llygad ar y mater. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadw mewn cof bod y cyrff sy'n cyfateb i Gymdeithas Gwenynwyr Cymru yn Lloegr ac yn yr Alban hefyd yn Sefydliadau Corfforedig Elusennol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwneud Adolygiad Strategol yn 2026 (a fydd yn cynnwys adolygiad o weithgareddau CGC yn y dyfodol). Bydd hyn yn cynnig cyfle i edrych eto ar y mater o ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol gan ystyried materion strategol a gweithdrefnol yn y dyfodol.

Strategaeth

Mae CGC yn cydnabod bod angen iddi adolygu'n rheolaidd sut mae'n cyflawni ei Bwriadau Cyfreithiol a hefyd y Nodau a'r Amcanion a nodwyd ganddi. Mae hyn yn cynnwys sut mae'n bodloni anghenion ei Haelodau. Yn ogystal â gofyn a yw hi'n gwneud y pethau cywir, mae'n cydnabod bod angen iddi ystyried hefyd a yw hi'n gallu gwneud rhai pethau'n well ac yn fwy effeithlon ac effeithiol. Wrth i Gymdeithas Gwenynwyr Cymru edrych ymlaen at 2026, mae'n amlwg y bydd cyfleoedd a heriau arwyddocaol hefyd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod hyn yn peri bod angen cynnal Adolygiad Strategol yn 2026 ac mae gwaith wedi dechrau ar y dasg hon. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o waith i ddiffinio'r polisïau a'r rhaglenni sydd eu hangen er mwyn cyflawni amcanion CGC, nodi'r adnoddau sydd eu hangen, a phennu'r dulliau er mwyn mesur perfformiad.

Rheoli

Mae'r Elusen yn cael ei rheoli gan Dîm Rheoli'r Ymddiriedolwyr (a restrwyd uchod). Ceir rhestr lawn o'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ar ddiwedd y Rhan hon o'r Adroddiad.

Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr â Chyngor CGC dair gwaith (ym misoedd Mawrth, Mehefin, a Thachwedd) i adrodd ar weithredu'r Tîm Rheoli ac i gael arweiniad gan yr aelodaeth. Cynhaliwyd pob un o'r cyfarfodydd ac eithrio un mis Mawrth yn rhithiol. Ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn roedd o leiaf 74% (14) o'r Cymdeithasau sy'n Aelodau o CGC wedi'u cynrychioli ac at ei gilydd mynychodd 90% (17) Cymdeithas o leiaf un cyfarfod. Dosbarthwyd cofnodion pob un o gyfarfodydd y Cyngor drwy Ysgrifenyddion y Cymdeithasau. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar 7 Mawrth, 27 Mehefin a 7 Tachwedd yn 2026. Er mwyn lleihau hyd cyfarfodydd y Cyngor, mae adroddiadau'r Swyddogion yn cael eu

hysgrifennu a'u cylchredeg cyn y cyfarfod. Mae arweinwyr yr is-bwyllgorau'n cyfeirio at y rhain fel y bo angen yn ystod eu hadroddiadau cryno. Gall Cynrychiolwyr y Cyngor holi cwestiynau a rhoi sylwadau ar yr adroddiadau.

Cafodd y Tîm Rheoli gyfarfod naw gwaith yn ystod 2025 ac er mwyn lleihau'r teithio, roedd pob un o'r cyfarfodydd yn rhai rhithiol. Bydd y Tîm Rheoli'n cwrdd o leiaf bedair gwaith yn 2026, gyda'r cyfarfod cyntaf i fod ar 6 Ionawr. Mae dull a dyddiadau'r cyfarfodydd y Tîm Rheoli'n adlewyrchu argaeledd a chyfeiriadau cartref yr Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl yn gallu mynychu a bod cyn lleied o gostau teithio ag sy'n bosibl. Rhwng y cyfarfodydd y Tîm Rheoli sydd wedi'u hamserlennu, cytunwyd ar weithdrefnau er mwyn cael cytundeb yr ymddiriedolwyr ar gyfer unrhyw faterion brys. Cytunwyd ar fformat agenda safonol ac fe'i mabwysiadwyd. Dosbarthwyd cofnodion llawn pob cyfarfod y Tîm Rheoli drwy ysgrifenyddion y Cymdeithasau. Adnewyddwyd trwyddedau'r gweminarau a'r cyfarfodydd rhithiol ym mis Hydref 2025 a bydd y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Tîm Rheoli'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol fel bod llai o angen teithio. Mae'r trwyddedau ar gyfer cyfarfodydd rhithiol ar gael i Aelod-Gymdeithasau CGC i'w defnyddio ar gyfer eu cyfarfodydd nhw.

Lle mae'n briodol i'w rolau, gwahoddwyd swyddogion CGC nad ydyn nhw'n Ymddiriedolwyr i fynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli yn ystod 2025 er mwyn helpu gyda gwaith yr ymddiriedolwyr.

Mae polisïau CGC wedi'u diweddaru a'u diwygio lle roedd angen. Mae dogfennau cyfarwyddyd am Iechyd a Diogelwch, Diogelu a DBS ar wefan CGC er mwyn rhoi arweiniad i aelod-gymdeithasau ac mae'r rhain yn cysylltu â'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad cyfoes sy'n berthnasol yng Nghymru. Mae hyn er mwyn helpu cymdeithasau i sicrhau bod eu gweithgareddau'n cydymffurfio. Hefyd, cytunwyd ar arweiniad i Swyddogion CGC sy'n rhoi cyflwyniadau neu adroddiadau am CGC i gyrff allanol.

Mae CGC wedi adolygu arweiniad perthnasol ar GDPR a hefyd wedi cael cyngor allanol ar sut i'w roi ar waith. Bydd llenyddiaeth yr elusen yn ei gwneud hi'n eglur lle a gyda phwy y mae'n rhannu unrhyw ddata. Bydd rhagor o waith ar faterion GDPR yn cael ei wneud yn barhaus.

Roedd nifer o faterion a gododd yn ystod 2025 a oedd yn gofyn am sylw'r Tîm Rheoli ac a fydd yn parhau yn ystod 2026. Y pwysicaf ymysg y rhain oedd bod y gacynen felyngoes wedi cyrraedd amryw o leoliadau yn Lloegr (yn ne-ddwyrain Lloegr yn bennaf) a hefyd yng Ngweriniaeth Iwerddon. Mae'n rhy gynnar i weld a yw'r cacwn wedi ymsefydlu yn y naill wlad neu'r llall. Does dim nythod wedi'u gweld yng Nghymru hyd yma. Fodd bynnag, mae hwn yn debygol o fod yn fater strategol allweddol i CGC gydag effaith eang bosibl ar wenynwyr amatur a masnachol. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu bod angen inni baratoi ac mae manylion yr hyn y mae CGC wedi bod yn ei wneud mewn mannau eraill yn yr Adroddiad.

Hefyd, mae CGC yn poeni am fewnforio gwenyn mêl o'r tu allan i'r DU. Perygl y gweithgarwch masnachol cyffredin hwn yw trosglwyddo clefydau a hefyd mae'n arwain at gyflwyno geneteg nad yw'n frodorol i boblogaethau gwenyn mêl lleol. Mae hyn yn arwain at ansefydlogrwydd genetig a natur ymosodol bosibl wrth gymysgu isrywogaethau gwenyn mêl. Hefyd, mae'n gweithio yn erbyn cadw ein Gwenynen Fêl Ddu Gymreig (*apis mellifera mellifera*). Polisi tymor hir CGC yw cefnogi gwenyn wedi'u haddasu'n lleol yn seiliedig ar boblogaeth gefndirol *apis mellifera mellifera*. O ganlyniad i'w safle polisi eglur yn gwrthwynebu mewnforio gwenyn mêl, gwnaeth CGC gyflwyniad ym mis Ionawr 2025 i Bwyllgor Dethol Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig (EFRA) Senedd y Du a oedd yn cynnal "Ymchwiliad i Fioddiogelwch ar y Ffiniau/Biosecurity at the Border Inquiry". Roedd hi'n siomedig na chafodd CGC unrhyw adborth ar ei chyflwyniad ac nid yw'n ymddangos bod ei safbwyntiau ar y materion wedi'u hystyried ar lefel Senedd y DU.

O ganlyniad i'w phrofiad gyda Phwyllgor Dethol EFRA Senedd y DU, mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru wedi dechrau'r broses o gryfhau ei llwyfan polisi cyhoeddus a bydd hyn yn parhau yn 2026. Mae'r Tîm Rheoli'n cydnabod bod angen rhoi gwybodaeth am ei materion polisi a'i blaenoriaethau

cyn ac ar ôl Etholiad Cyffredinol 2026 i Senedd Cymru.

Hefyd, mae'r Ymddiriedolwyr wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater a yw gwenyn mêl yn andwyol i bryfed peillio eraill o ran cystadlu am borfwyd (forage). Mae nifer o gyrff cadwraeth wedi dadlau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth anghyson. Amlygwyd hyn yn 2025 pan gyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot waharddiad ar gychod gwenyn ar ei dir. Mae CGC yn casglu tystiolaeth wyddonol i ddangos nad yw gwenyn mêl yn fygythiad i bryfed peillio eraill, yn enwedig o ran gwenyn mêl wedi'u haddasu'n enynnol yn lleol a chadw'r Wenynen Fêl Ddu Gymreig frodorol.

Ar ôl cael adborth gan nifer o wenynwyr yng Nghynulliad y Gwanwyn Cymdeithas Gwenynwyr Cymru, mae'r Tîm Rheoli'n edrych ar bwnc gwenyna i'r rhai sydd ag amrywiaeth o anableddau a hefyd gwenynwyr hŷn. Mae hwn yn bwnc sydd wedi'i esgeuluso ac, o ganlyniad, rydym yn ymchwilio i amrywiaeth o atebion. Mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru yn awyddus i wneud i wenyna fod mor hygyrch â phosibl i gynifer o bobl â phosibl.

Gwahoddwyd Cymdeithas Gwenynwyr Cymru i anfon tîm o 10 gwenynwr ifanc o Gymru i ddigwyddiad gwledydd Prydain 2025 yn Ulster er mwyn paratoi at y Cyfarfod Gwenynwyr Ifanc Rhyngwladol a fydd yn cael ei gynnal yno ym mis Gorffennaf 2026. Er inni wneud apêl i'r aelod-gymdeithasau yng nghyfarfod mis Mawrth Cyngor Cymdeithas Gwenynwyr Cymru am wenynwyr ifanc a oedd â diddordeb mewn mynychu'r digwyddiad, ni chafwyd ymatebion. Yn anfodlon, cytunodd y Tîm Rheoli i wrthod y gwahoddiad.

Mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru yn awyddus i gynyddu ei phroffil cyhoeddus. Yn rhan o hyn, mae'r Tîm Rheoli wedi trafod datblygu'r Wefan ymhellach ac mae wedi cynhyrchu Polisi Cyfryngau Cymdeithasol.

Hefyd, mae'r Tîm Rheoli yn edrych ar weithredu Polisi'r Gymraeg a sut gall ddod yn gwbl ddwyieithog.

Yn 2023 cafodd adolygiad o strwythur CGC ei gwblhau a'i weithredu. Mae cylch gorchwyl pob is-bwyllgor CGC wedi cael ei adolygu'n rhan o hyn. Nawr, mae'r rhan fwyaf o fusnes bob dydd CGC yn cael ei wneud gan bedwar is-bwyllgor a phob un wedi'i gadeirio gan un o Ymddiriedolwyr CGC ac yn adrodd i'r Tîm Rheoli. Mae rhestr o'r is-bwyllgorau hyn a'u haelodau isod: -

Gweinyddu a Chymorth: Cadeirydd – John Bowles (Ymddiriedolwr a Swyddog Yswiriant a Swyddog Rhywogaethau Estron Goresgynnol), Graham Wheeler (Ymddiriedolwr a Thrysorydd), Jenny Shaw (Ymddiriedolwr ac Ysgrifennydd Cyffredinol), Paul Pearce (Ymddiriedolwr), Trish Calderbank (Ysgrifennydd Aelodaeth ac ysgrifennydd cofnodion i'r is-bwyllgor), John Pilgrim (Swyddog Iechyd a Diogelwch), Keith Davies (Ymddiriedolwr).

Dysgu a Datblygiad: Cadeirydd - Paul Pearce (Ymddiriedolwr) (Caroline Mullinex (Ymddiriedolwr tan fis Mehefin), Jenny Shaw (Ymddiriedolwr ac ysgrifennydd dros dro i'r is-bwyllgor), Ceri Joyner (Ymddiriedolwr), Liz Childerley (Ysgrifennydd Arholiadau), Sue Taylor (Swyddog Ysgolion), Wally Shaw (Swyddog Technegol), Roger Boyle (Gwefeistr), Lynfa Davies, Trisha Marlow.

Digwyddiadau: Cadeirydd - Alan Burford (Ymddiriedolwr) tan fis Ebrill 2025 ac yna Graham Wheeler (Ymddiriedolwr a Thrysorydd), Keith Davies (Ymddiriedolwr), Jill Wheeler (Ysgrifennydd Digwyddiadau), Vicky Davies, Martin Anderson, Steve Bromwich.

Golygyddol: Cadeirydd – Jenny Shaw (Ymddiriedolwr), Ceri Joyner (Ymddiriedolwr), Selwyn Runnett (Ymddiriedolwr) Chris Clarke (prawf ddarllenydd), Basil Wolf (Golygydd), Sue Taylor (Swyddog Ysgolion), Elin Meek (Golygydd Cymraeg), Wally Shaw (Swyddog Technegol), Jill Hill (ysgrifennydd i'r is-bwyllgor), Jill Wheeler.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith pob is-bwyllgor yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ac mae eu

cylch gorchwyl ar wefan CGC. Gwneir arolwg arall o'r Is-bwyllgorau yn 2026.

Yswiriant: Mae sicrwydd Yswiriant CGC yn seiliedig ar sawl amod, gan gynnwys yr angen am dalu ffioedd y pen yn brydlon a bod y rhai sy'n dod o dan y polisi yn cael eu cofnodi'n unigol ar system aelodaeth eR2. Mae'r Cymdeithasau i fod i dalu ffioedd y pen erbyn 1 Ionawr bob blwyddyn, ond rhoddir lwfans, dim ond i'r holl arian dyledus gael ei dderbyn erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn honno. Atgoffir Aelod-Gymdeithasau fod angen i'r taliad gael ei wneud yn brydlon. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Yswiriant ac Iechyd a Diogelwch yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Yn dilyn cais gan Gyngor CGC, adolygwyd a diwygiwyd categorïau aelodaeth CGC yn 2022 er mwyn sicrhau bod pob un o Aelodau Anuniongyrchol CGC wedi'u cynnwys o dan ein polisi yswiriant. Mae'n bleser gennym adrodd bod ein hyswiriant bellach yn cynnwys gwenynwyr o dan 18 oed.

Cronfeydd wrth Gefn: Mae'r polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn dweud y bydd yr Elusen (CGC) yn cadw cronfa wrth gefn o £10,000 i £13,000. Mae angen y gronfa wrth gefn hon yn ôl y Gyfraith Elusennau i dalu am gostau gweithredol a chytundebol petai'r angen yn codi. Caiff y polisi hwn ei fonitro a'i ddiweddaru'n flynyddol.
Defnyddir yr arian yng nghyfrif cyfredol HSBC nid yn unig i dalu am gostau rhedeg y Gymdeithas ond i ariannu amryw o brosiectau fel rhedeg gweithdai/cyrsiau a lledaenu gwybodaeth, drwy amryw o ddulliau fel y wefan, llyfrynnau a chyhoeddiadau eraill. Mae adroddiad ariannol manwl yn cyd-fynd â'r ddogfen hon.

Pwyllgor yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddogion: Yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol 2025 ymddiswyddodd Caroline Mullinex o swydd Cadeirydd CGC ac etholwyd Selwyn Runnett i'r rôl honno. Etholwyd Paul Pearce yn Is-Gadeirydd a Ceri Joyner yn Ymddiriedolwr. Cyfetholodd y Tîm Rheoli ymddiriedolwr newydd, Wendy York (Mai 2025). Bydd ei phenodiad yn cael ei chyflwyno i'r aelodaeth i'w gadarnhau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2026 ar 7 Mawrth. Ymddiswyddodd Alan Burford o fod yn Ymddiriedolwr CGC ym mis Mai 2025.

Mae wyth Ymddiriedolwr ar hyn o bryd (ar 31 Rhagfyr 2025).

Yn y CCB ym mis Mawrth 2025, ymddeolodd Liz Childerly fel Swyddog Arholiadau CGC ac ymgymerodd Ceri Joyner â'r rôl. Rydym yn diolch i bob un o swyddogion CGC nad ydyn nhw'n ymddiriedolwyr am eu gwaith dros wenyna yng Nghymru. Mae gan bob Swyddog CGC ddisgrifiad swydd eglur ac wedi'i ddiweddaru ac mae'r Tîm Rheoli yn parhau i edrych ar gynlluniau dros dro ar gyfer swyddi allweddol os yw swyddog yn ymddiswyddo neu'n methu gwneud y gwaith am gyfnod o amser. Cydnabyddir nad yw dod o hyd i wirfoddolwyr i ymgymryd â rolau gwirfoddol yn dasg hawdd.

Aelodaeth: Mae gan CGC bedair ar bymtheg o Aelod-Gymdeithasau sy'n cynrychioli 2008 o Aelodau Cofrestredig, 287 o Aelodau Partner, 19 Aelod Gwlad a 7 o Aelodau Iau a dau grŵp o Aelodau Arbenigol. Fel rhan o'r aelodaeth y pen a godir ar bob Aelod-Gymdeithas, mae'r aelodau Anuniongyrchol yn elwa drwy dderbyn pedwar rhifyn o 'Gwenynwyr Cymru' ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch trydydd parti. Ar hyn o bryd mae 23 Aelod Unigol ac 8 Aelod Anrhydeddus o Gymdeithas Gwenynwyr Cymru. Mae dadansoddiad manwl o'r aelodaeth yn dod gyda'r adroddiad hwn.

Rydyn ni'n dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru. Mae Kathleen Carroll (Llywodraeth Cymru) a Daniel Baxter (Gwasanaeth Archwilio Gwenyn) wedi mynychu o leiaf un Cyfarfod Cyngor CGC yn 2025 er mwyn cynnig cyngor.

Mae'r categorïau aelodaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol mai un enw'n unig sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob cofnod yn eR2 ac mai'r person hwnnw a enwir yn unig fydd yn gymwys i ddod o dan yswiriant CGC. Mae partneriaid sy'n byw yn yr un cyfeiriad ag aelod wedi'i gofrestru ac sy'n rheoli'r un gwenyn

wedi'u hyswirio os ydyn nhw wedi'u cofnodi'n unigol yn system eR2. Hefyd, dylai aelodau iau o dan 18 oed gael eu rhestru ar wahân yn eR2. Aelodau iau a enwir yn unig fydd yn cael eu hystyried i gynrychioli CGC yng Nghyfarfod Rhyngwladol y Gwenynwyr Ifanc. O fis Ionawr 2024 roedd gofyn i aelodau partner CGC dalu aelodaeth flynyddol y pen o £6 a chododd y ffi i aelodau cofrestredig i £12 y flwyddyn. Y cynnydd hwn oedd y cyntaf mewn dros 10 mlynedd ac roedd yn adlewyrchu'r sefyllfa economaidd bresennol.

Defnyddir aelodau gwlad i bob heb wenyn sy'n dymuno bod yn Aelodau Anuniongyrchol o CGC ac eto dylen nhw ymddangos fel cofnodion unigol yn eR2. Y categori aelodaeth olaf yw Aelodau Lleol a ddylai ymddangos eto yn eR2 fel cofnodion unigol. Does gan Aelodau Lleol ddim gwenyn ac maen nhw'n aelodau o'r Aelodau Gymdeithas a does ganddyn nhw ddim pleidlais yn nhrafodion y gymdeithas honno. Dydy Aelodau Lleol ddim yn aelodau Anuniongyrchol o CGC a does dim hawl ganddyn nhw i unrhyw fanteision sy'n dod o fod yn aelod o CGC. Y bwriad yw addasu Cyfansoddiad CGC yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 7 Mawrth 2026, er mwyn egluro beth yw Aelodaeth Leol. Mae mwyafrif Cymdeithasau Aelodau CGC bellach yn defnyddio gwasanaeth aelodaeth eR2 a daliodd Trish Calderbank, Ysgrifennydd Aelodaeth CGC ati i ddarparu hyfforddiant i ddefnyddwyr. Hoffem ddiolch i Trish am ei gwaith caled parhaus yn cynorthwyo Cymdeithasau. Mae CGC yn parhau i weithio gyda BDI i sicrhau bod system eR2 yn diwallu gofynion Cymdeithasau yng Nghymru.

Gwefan: Mae'r wefan, a lansiwyd yn 2022, yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac mae data dadansoddi diweddar yn dangos cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r safle. Mae'r wefan yn adlewyrchu polisi iaith CGC. Rydyn ni'n diolch i Roger Boyle am ei waith yn datblygu ac yn cynnal a chadw ein gwefan.

Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru: Llwyddwyd i gyhoeddi pob un o'r pedwar rhifyn chwarterol yn ystod y flwyddyn. Hoffem ddiolch i'n Golygydd, Basil Wolf, am ei ymroddiad i gynhyrchu'r cylchgrawn. Hefyd, rydym yn ddiolchgar i'r llu o aelodau CGC sydd wedi rhoi erthyglau a ffotograffau i'r cylchgrawn. Mae'n bosibl lawrlwytho pedwar copi diweddaraf y cylchgrawn o wefan CGC ac mae rhifynnau electronig blaenorol ar gael gan yr archifydd, Karen Pratt, fel ffeiliau electronig archivist@wbka.com.

Cyhoeddiadau: Mae'n bosibl i Gynrychiolwyr Cymdeithasau gasglu copïau wedi'u hargraffu o bob un o'r llyfrynnau a'r cardiau clefydau a gyhoeddwyd gan CGC, a hynny yng Nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth neu mae'n bosibl eu harchebu ymlaen llaw yng Nghynulliad Blynyddol CGC ddiwedd mis Mawrth. Bydd cyflenwadau'n cael eu hanfon at gymdeithasau os ydyn nhw'n cytuno i dalu am y costau sy'n codi.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithio gyda nifer o asiantaethau allanol yn ystod 2025 i sicrhau bod gwenynwyr Cymru yn cael gwybodaeth lawn ac yn cael eu cefnogi ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop. Rhoddir rhestr o'r cyfarfodydd allanol a fynychwyd gan CGC yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (Cymru a Lloegr): Mae'r Bee Health Advisory Forum (BHAF) yn gyfarfod wedi'i drefnu gan Lywodraeth y DU lle mae cynrychiolwyr o bob Cymdeithas Wenyna yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â NBU, APHA, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol, ac ati. Mae'n cynnig cyfle i drafod a dylanwadu ar faterion cyfredol ac arfaethedig a all fygwth lles ein gwenyn. Mae'r eitemau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio wedi'u cynnwys yn fwy manwl mewn adroddiad ar wahân.

Fforwm Pryfed Peillio: Fforwm o dan nawdd Llywodraeth Cymru yw hwn sy'n dod ag amrywiaeth o grwpiau ynghyd sy'n cynrychioli mudiadau sydd â diddordeb mewn diogelu'r amgylchedd gwyllt a gwella rheoli tir er lles pryfed peillio o bob math, yn amrywio o ieir bach yr haf, pryfed hofran i gacwn

a gwenyn mêl. Rydym ni'n credu y bydd beth bynnag sy'n dylanwadu ar y dirwedd gorfforol a rheolaeth y tir i unrhyw bryfed peillio, ac yn ei wella, hefyd o fudd i wenyn mêl.

CONBA (Cyngor Cymdeithasau Gwenyna Cenedlaethol – Y DU): Mae Cymdeithasau Gwenyna Cymru, Lloegr, yr Alban ac Ulster yn ogystal â Chymdeithas Ffermwyr Gwenyn (Bee Farmers Association) gyda'i gilydd yn ffurfio CONBA (Council of National Beekeeping Associations) sy'n cefnogi buddiannau pob gwenynwr a gwenyna yn y DU. Mae Ffederasiwn Gwenynwyr Iwerddon, sy'n cynrychioli gwenynwyr yn Iwerddon, yn mynychu cyfarfodydd CONBA hefyd i arsylwi. Mae'n rhoi cyfle inni ddatblygu strategaethau ar y cyd i ymdrin ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys cynlluniau'r llywodraeth.

Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru: Fe'i sefydlwyd yn gyntaf yn 1904 ac yna fel Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd yn 1963 gan gynnwys y Sioe Fêl y mae CGC yn cynnig cymorth a chefnogaeth.

Sioe Fêl Genedlaethol (y DU) / National (UK) Honey Show (NHS): Yn 2022 daeth CGC yn aelod o'r Sioe Fêl Genedlaethol, sef y corff sy'n trefnu ac yn rhedeg Sioe Fêl flynyddol y DU sy'n agored i bob gwenynwr gymryd rhan ynddi. Mae'r Sioe Fêl Genedlaethol yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o'i haelodau ar y cyd â'r Sioe Fêl.

NDB (Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyna): Mae CGC yn cael ei chynrychioli yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y corff sy'n rheoli ac yn dyfarnu'r cymhwyster 'lefel gradd' mewn gwenyna yn ogystal â rhedeg nifer o gyrsiau byr i addysgu gwenynwyr yn y DU.

Cyfarfodydd a Fynychwyd yn 2025

Cyfarfodydd Mewnol CGC yn 2025:

6 Ionawr	Pwyllgor Digwyddiadau: rhithiol
15 Ionawr	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
21 Mawrth	Tîm y Gacynen Felyngoes: rhithiol
27 Ionawr	Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol
30 Ionawr	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
4 Mawrth	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
8 Mawrth	CCB a Chyfarfod y Cyngor, Plas Dolerw: wyneb yn wyneb ac yn rhithiol ar y cyd
11 Mawrth	Y Tîm Golygyddol: rhithiol
22 Mawrth	Pwyllgor Digwyddiadau: wyneb yn wyneb
8 Ebrill	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
15 Ebrill	Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol
21 Ebrill	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
6 Mai	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol

16 Mai	Pwyllgor Digwyddiadau: wyneb yn wyneb
3 Mehefin	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
23 Mehefin	Pwyllgor Golygyddol: rhithiol
24 Mehefin	Pwyllgor Gweinyddu a Chymorth: rhithiol
28 Mehefin	Cyfarfod y Cyngor: rhithiol
15 Gorffennaf	Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol
20 Gorffennaf	Pwyllgor Digwyddiadau: wyneb yn wyneb
28 Gorffennaf	Tîm y Gacynen Felyngoes: rhithiol
29 Gorffennaf	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
18 Awst	Pwyllgor Golygyddol: rhithiol
2 Medi	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
9 Medi	Pwyllgor Gweinyddu a Chymorth: rhithiol
18 Mawrth	Tîm y Gacynen Felyngoes: rhithiol
6 Hydref	Tîm y Gacynen Felyngoes: rhithiol
14 Hydref	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
1 Tachwedd	Cyfarfodydd y Cyngor: rhithiol
4 Tachwedd	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
17 Tachwedd	Y Tîm Golygyddol: rhithiol
13 Tachwedd	Tîm y Gacynen Felyngoes: rhithiol
28 Tachwedd	Pwyllgor Dysgu a Datblygu: wyneb yn wyneb
2 Rhagfyr	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
17 Rhagfyr	Tîm y Gacynen Felyngoes: rhithiol

Cynrychiolaeth CGC mewn Cyfarfodydd Allanol yn 2025:
Selwyn Runnett (S.R.), John Bowles (J.B.), Keith Davies (K.D.), Paul Pearce (P.P), Jill Wheeler (J.W.)

6 Mawrth	Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (P.P.)
26 Mawrth	Cyngor Cymdeithasau Gwenyna Cenedlaethol: rhithiol (S.R a P.P.)
21 Mai	Tasglu Pryfed Peillio:(K.D.)
7 Mehefin	Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (P.P.)
14 Hydref	Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (P.P.)

17 Hydref	Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru: Pwyllgor Sioe Fêl rhithiol (J.W.)
22 Hydref	Cyngor Cymdeithasau Gwenyna Cenedlaethol: wyneb yn wyneb a rhithiol (S.R.)
23 Hydref	CCB Sioe Fêl Genedlaethol: wyneb yn wyneb (S.R.)
19 Tachwedd	Tasglu Pryfed Peillio Llywodraeth Cymru: rhithiol (S.R. a K.D.)
3 Rhagfyr	Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (P.P. a J.B.)

ADRODDIADAU

Adroddiad Trysorydd CGC, Blwyddyn Ariannol 2025

Cyllideb Diwedd Blwyddyn yn erbyn Cyllideb 2025

Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn oedd bod arian dros ben o £6k yn erbyn arian dros ben wedi'i gyllidebu'n wreiddiol o £0.5k, cyfrannodd nifer o ffactorau at hyn gyda gwariant yn is na'r disgwyl mewn nifer o feysydd yn gwrthbwyso incwm wedi'i chyllidebu a oedd yn is na'r disgwyl.

- Cwympodd nifer yr aelodau uniongyrchol; efallai fod hyn oherwydd y cynnydd yn y ffioedd aelodaeth yn ogystal â'r ymdrechion i gyfeirio aelodau newydd posibl i ymuno â chymdeithasau lleol.
- Gohiriwyd y gwariant ar lyfrynnau addysgol oedd wedi'i gynllunio oherwydd nad oedd gan wirfoddolwyr ddigon o amser a bod cyfyngiadau ar le storio.
- Roedd y costau meddalwedd yn is na'r gyllideb oherwydd costau is am drwyddedau cyfarfodydd a gweminarau.
- Roedd y costau hyfforddiant net yn is na'r gyllideb oherwydd mai dim ond un gweithdy a gynhaliwyd gan nad oedd digon o adnoddau dynol.
- Roedd yr incwm hysbysebu'n is na'r gyllideb a'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd incwm y Cynulliad yn uwch na'r gyllideb, roedd y costau'n is na'r gyllideb, felly roedd angen llai o gyfraniad o gronfeydd CGC nag a ragwelwyd.
- Roedd argraffu'r cylchgrawn a'r costau dosbarthu ychydig yn uwch na'r gyllideb. Roedd y costau'n uwch na'r gyllideb am y tri rhifyn cyntaf ond oherwydd inni ddod o hyd i gyflenwr newydd ac addasu'r fanyleb, cafwyd costau llawer yn well.
- Ni ddigwyddodd y cynnydd a ragwelwyd o ran costau arholiadau er mwyn cefnogi mynediad aelodau at fodiwlau BBKA. Yn y dyfodol, bydd aelodau'n cael eu noddi i ddod yn aelodau o BBKA ar ôl cwblhau modiwlau'n llwyddiannus.

Cyllideb 2026

- Bydd yr aelodaeth y pen i lawr eleni oherwydd bod llai o aelodau. Mae'r aelodaeth y pen yn aros yn ddigyfnewid.
- Ni fydd newid i ffioedd aelodaeth unigol.
- Disgwylir i incwm y Cynulliad godi eleni, tra mae'r gwariant sydd wedi'i gynllunio yn is. O ganlyniad, ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y bydd elw net o oddeutu £200.

- Mae'r incwm hyfforddiant yn seiliedig ar raglen o 5 gweithdy: 4 gweithdy yn seiliedig ar y model partneriaeth â chymdeithasau lleol a digwyddiad mynediad am ddim yng nghynulliad y gwanwyn ar y Gacynen Felyngoes. Cost net cyffredinol £500.
- Mae prosiectau arbennig wedi cael cyllideb o £4k er mwyn talu am ailargraffu llyfrynnau a swm posibl o £1k i gefnogi Digwyddiad Gwenynwyr Ifanc Rhyngwladol.
- Bydd y costau sydd wedi gwella o ran cynhyrchu'r cylchgrawn y llwyddwyd i'w cael yn 2025 yn cael effaith fuddiol arwyddocaol.

Mae'r gyllideb ddrafft fel mae wedi'i chyflwyno yn rhagweld y bydd £3.5k dros ben ar gyfer 2026.

Rhagamcanu Cyllideb 2027 a'r Cynnig Aelodaeth y Pen

Er mwyn llywio'r drafodaeth ynghylch Aelodaeth y Pen ar gyfer 2027, mae rhagamcan ar gyfer 2027 wedi'i gwblhau. Mae incwm y pen yn seiliedig ar gyfraddau 2025 ac aelodaeth 2025. Mae'r gwariant ar yr holl brif eitemau yn cynyddu 5% gyda darpariaeth ychwanegol o £1k ar gyfer mentrau addysg newydd. Y canlyniad o ran incwm yw sefyllfa lle rydym yn rhagamcan y bydd £4k dros ben ar gyfer 2027.

Ar sail y rhagamcaniad hwn a'r colledion is na'r disgwyl ar gyfer 2025, argymhellwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd y dylai lefelau anuniongyrchol y pen ar gyfer aelodau ar gyfer 2027 gael eu cadw ar lefel 2026. Cymeradwyodd Cyngor mis Tachwedd yr argymhelliad, i'w gymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Gweinyddu a Chymorth – gan gynnwys yr Adroddiadau Yswiriant, Iechyd a Diogelwch a Diogelu

Sefydlwyd Pwyllgor Gweinyddu a Chymorth CGC (ASC) yn 2023 i fod yn Bwyllgor "hidlo" cyffredinol a fyddai'n cynrychioli agweddau amrywiol ar rôl CGC. Er bod y rolau gweithredol yn cael eu gadael ar lefel y Cyngor a'r Tîm Rheoli, mae ASC yn ystyried agweddau amrywiol ar ein gwaith ac, i ddechrau, mae'n gwneud argymhellion ynghylch opsiynau i'r Tîm Rheoli. Mae gan y Pwyllgor aelodau sy'n Ymddiriedolwyr ac eraill sy'n swyddogion. Bydd unrhyw swyddog sy'n cymryd rhan yn cael disgrifiad swydd. Mae cylch gorchwyl wedi'i lunio i'r Grŵp. Etholwyd John Bowles yn Gadeirydd ac roedd Trish Calderbank ein Hysgrifennydd Aelodaeth wedi cytuno'n garedig i fod yn Ysgrifennydd Cofnodion ond mae hi wedi mynegi dymuniad i ymddiswyddo o'r rôl hon ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol.

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd cwrdd 3 gwaith y flwyddyn, dau gyfarfod yn unig a gafodd y Pwyllgor yn 2025. Bydd swmp y gwaith sydd ei angen yn pennu i raddau helaeth pa mor aml bydd yn cwrdd yn ystod y flwyddyn nesaf.

<u>Cyllid</u> yw un o'r pynciau yng nghylch gorchwyl ASC, ond y rôl yw cynorthwyo'r Trysorydd i ffurfio prosesau ac ati. Wedyn bydd y cyngor a ddatblygir yn cael ei roi i'r Pwyllgor Rheoli ac yna i'r Cyngor. Bydd adroddiad Cyllid llawn yn cael ei ddarparu mewn man arall yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol.

Mae <u>Aelodaeth</u> hefyd yn rhan o gylch gorchwyl ASC, a gwnaed rhai mân newidiadau i'r ffurflen gais aelodaeth er mwyn gwneud pethau'n gliriach i'r ymgeiswyr tro cyntaf. Mae'r adroddiad aelodaeth yn annibynnol yn yr Adroddiad Blynyddol.

<u>Diogelu</u>

Mae gan CGC bolisi ac arweiniad ar Ddiogelu ar ei gwefan a byddwn yn cynghori cymdeithasau i nodi'r argymhellion hyn. Yn ystod 2025 ni chafodd unrhyw faterion Diogelu eu hadrodd neu eu nodi. Cafodd

Polisi Diogelu CGC a'i Harweiniad i Gymdeithasau eu hadolygu ym mis Tachwedd 2024 ac mae'n dal i fod heb ei newid.

Yswiriant

O egluro ymhellach, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y diffiniadau o'r mathau o aelodau sydd gennym yn CGC, bu'n bosibl i ni sicrhau bod pawb sydd ag angen yswiriant yn ei gael am gost sy'n gyfartal i bawb.

Eleni gofynnon ni am ddyfynbrisiau gan ddau frocer, NFU a oedd yn arfer yswirio offer CGC a ddefnyddid at ddibenion hyfforddi a'n brocer presennol Howden (a fu gydag Aston Lark), y cwmni sy'n frocer i'r BBKA. Ni roddodd Jensten a oedd wedi ein hyswirio ni o'r blaen ddyfynbris eleni ond roedden nhw'n dymuno inni eu holi yn y dyfodol. Yn gynnar yn y trafodaethau, daeth hi'n amlwg na fyddai'r NFU yn gallu cynnig dyfynbris cystadleuol felly aethon ni ddim pellach gyda nhw. Cynigiodd Howden ddyfynbris gyda chefnogaeth AVIVA, gyda chynnydd llai na chwyddiant am ein Hatebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch. Hefyd, cafodd yr yswiriant i aelodau'r Pwyllgor Cymdeithasau, y Swyddogion a'r Ymddiriedolwyr ei adnewyddu gyda'r un cwmni â'r llynedd.

Ond, fel y nodais mewn blynyddoedd blaenorol, dim ond "Cynhyrchu a darparu cynhyrchion cynradd cychod" mae ein hyswiriant Atebolrwydd Cynnyrch yn ei gynnwys ac nid cynhyrchion sydd â chynhyrchion heb ddod o gychod wedi'u hychwanegu atyn nhw, fel rhai deunyddiau caboli, balmau, ac elïau. Mae'r arweiniad a gyhoeddwyd y llynedd yn dal yr un fath. Y cyngor gorau i unrhyw un sy'n cynhyrchu cynhyrchion fel hyn yw chwilio am yswiriant arall.

Yr unig newid arall fu cytundeb i yswirio aelodau am weithgareddau sy'n gysylltiedig ag olrhain nythod y Gacynen Asiaidd, ond nid, hyd yma, â'u dinistrio nhw.

Roedd un hawliad wedi'i wneud gan berchennog ceffyl wedi'i anafu ar ôl cael ei bigo gan wenyn ac yr oedd angen triniaeth filfeddygol arno. Roedd gwerth yr hawliad, fodd bynnag, o dan y tâl-dros-ben (excess) o £500, felly nid oedd yn ddilys.

Iechyd a Diogelwch

Oherwydd amgylchiadau, nid oedd ein Swyddog Iechyd a Diogelwch, John Pilgrim, yn gallu cyflwyno adroddiad.

Er mwyn ailadrodd yr hyn a ddywedwyd mewn blynyddoedd blaenorol:

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi adolygu ein Polisi Iechyd a Diogelwch ac wedi cynghori bod ein Haelod-Gymdeithasau'n gwneud y canlynol:

a. Cynhyrchu dogfen debyg

b. Enwebu aelod o'r pwyllgor i fod yn gyfrifol am sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal ac unrhyw gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd yn unol â'r awgrymiadau a wnaed yn "Asesiadau Risg – Canllaw syml" sydd ar ein gwefan.

Hyd yn hyn dydy pob Cymdeithas ddim wedi cynhyrchu tystiolaeth o eu bod yn cydymffurfio â'r arweiniad hwn sydd wedi'i fwriadu'n dda.

Bydd peidio â chymryd camau i nodi risgiau a sicrhau bod y rhai sydd angen gwybod beth a ddisgwylir ganddynt yn golygu na ddangosir tystiolaeth o'r ddyletswydd gofal sy'n ofynnol. Byddwn i'n awgrymu, lle nad yw'r canllawiau sylfaenol hyn yn cael eu dilyn, fod hyn yn dangos amarch tuag at ddiogelwch

ac iechyd y cyhoedd ac aelodau, yn enwedig aelodau newydd y gallan nhw fod yn anymwybodol o'r risgiau y maen nhw'n eu hwynebu.

Nid adroddwyd am unrhyw Ddigwyddiadau o ran Iechyd a Diogelwch yn 2025.

Dysgu a Datblygu (L&D) – yn cynnwys Adroddiad yr Ysgrifennydd Arholiadau

Cynhaliodd yr is-bwyllgor Dysgu a Datblygu gyfarfodydd rhithiol chwarterol rheolaidd drwy gydol 2025 a chynnal cyfarfod wyneb yn wyneb ym Machynlleth i weithio ar raglen dysgu a datblygu newydd CGC ar gyfer 2027 a thu hwnt.

Daliodd Paul Pearce ati yn gadeirydd. Wendy York yw'r Ysgrifennydd Dysgu a Datblygu newydd a hefyd hi sy'n arwain y dasg enfawr o reoli'r rhaglen Gweminarau. Mae Ceri Joyner wedi parhau ei gwaith ardderchog fel Ysgrifennydd Arholiadau gyda Jenny Shaw, Lynfa Davies, Trisha Marlow a Wally Shaw yn cynnig cefnogaeth amhrisiadwy i'r is-bwyllgor.

Prif ffocws y gwaith eleni fu datblygu rhaglen newydd Dysgu a Datblygu ar gyfer 2027 a thu hwnt. Mae gwaith dadansoddi cynnar wedi dangos bod angen rhaglenni ffurfiol sy'n canolbwyntio ar yr ochr academaidd yn ogystal â llwybr hyfforddiant mwy ymarferol y tu hwnt i'r hyfforddiant sylfaenol. Yn ogystal, rydyn ni wedi gweld bod angen hyfforddiant/addysg sy'n cyd-fynd â gwenyna y byddai'n bosibl ei gyflwyno'n llai rheolaidd. Mae'r pwyllgor yn edrych ar leoliadau, mentora, aseswyr a sgiliau hyfforddwyr er mwyn helpu pawb i gyflwyno'r cynnig gorau posibl i wenynwyr yng Nghymru.

Mae'r pwyllgor Dysgu a Datblygu wedi parhau i weithio gyda'r Pwyllgorau Golygyddol a Digwyddiadau a thîm y Wenynen Felyngoes i roi cynnwys i'r cylchgrawn a mewnbwn i Raglen Cynulliad y Gwanwyn.

Diolchwn i bawb sy'n rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i ddatblygu a chyflwyno cyfleoedd dysgu i wenynwyr yng Nghymru a thu hwnt.

<u>Arholiadau ac Asesiadau</u>

Llwyddodd 21 o aelodau i basio Asesiad Sylfaenol CGC yn 2025, llawer â chlod ac ychydig â rhagoriaeth.

1 Ebrill fydd y dyddiad cau o hyd ar gyfer ceisiadau i sefyll Asesiadau Sylfaenol neu Ieuenctid CGC.

Daeth y Dystysgrif Iechyd Gwenyn Mêl (The Honey Bee Health Certificate (HBHC)) yn arholiad ymarferol CGC o 2025 a llwyddodd 3 aelod o CGC i'w hennill.

Fel y rhoddwyd gwybod ac fel y trafodwyd â'r Cyngor, ar ôl trafodaethau â BBKA, daeth newidiadau i'r broses arholiadau ar gyfer Modiwlau, Y Dystysgrif Hwsmonaeth Gyffredinol, Y Dystysgrif Hwsmonaeth Uwch, Microsgopeg a'r Dystysgrif Magu Gwenyn, a'r rheini ar waith o fis Tachwedd 2025. Erbyn hyn mae angen bod yn aelod o'r BBKA, naill ai aelodaeth gysylltiol neu uniongyrchol, er mwyn i aelodau Cymdeithas Gwenynwyr Cymru sefyll yr arholiadau a restrir uchod. Ym mis Mawrth cafodd 5 aelod o CGC lwyddiant mewn Modiwlau, 2 gyda Chlod. Cyflawnodd 1 aelod o CGC y Dystysgrif Theori Uwch a chyflawnodd 1 aelod o CGC y Dystysgrif Theori Ganolradd. Bellach, bydd hi'n heriol inni goladu'r canlyniadau ar gyfer canlyniadau o fis Tachwedd 2025 a thu hwnt; byddwn ni'n dibynnu ar aelodau'n rhoi gwybod inni am eu llwyddiannau.

Rydyn ni'n llongyfarch pob un o'r ymgeiswyr llwyddiannus ac yn diolch i bawb sydd wedi helpu i hwyluso'r arholiadau a'r asesiadau hyn i'n haelodau.

Gweminarau

Digwyddodd 10 gweminar byw arall yn 2025 ar amrywiaeth o bynciau, gan ddod â chyfanswm gweminarau CGC a gyflwynwyd bellach i 59. Ers i ni ddechrau'r gyfres gweminarau yn 2020, mae tua 10,000 wedi cofrestru i'w dilyn. Fel arfer, rydyn ni'n gallu rhoi dolen i unrhyw un sydd wedi cofrestru er mwyn gwylio ar "dal i fyny" am gyfnod cyfyngedig fel nad oes angen i unrhyw un golli allan oherwydd gwrthdaro yn y dyddiadur neu oherwydd cysylltedd gwael.

Rydyn ni'n dal i fod yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyflwyno yn ein gweminarau, ac i bawb sydd wedi'u cefnogi nhw, o fewn CGC a thu hwnt.

Ysgolion

Mae'r gwaith yn parhau o hyd i ddarparu adnoddau ar gyfer gwenyna mewn ysgolion. Mae arweiniad a gwybodaeth ar gael oddi wrth y Swyddog Ysgolion ar schools@wbka.com

Pwyllgor Digwyddiadau

Eleni cynhaliwyd Cynulliad y Gwanwyn ar 22 Mawrth. Roedd ychydig yn fwy o fynychwyr o gymharu â blynyddoedd blaenorol, 403. Roedd 11 stondin Fasnach, a 5 stondin o ddiddordeb cyffredinol. Cefnogodd 26 o stiwardiaid y gwaith o redeg y sioe ar yr y diwrnod yn ogystal â'r aelodau a helpodd i osod popeth ar y dydd Gwener. Eleni eto, defnyddion ni Sum Up ar gyfer taliadau ymlaen llaw ac ar y drws, felly roedd yr aelodau'n gallu defnyddio cerdyn credyd neu ddebyd i dalu.

Cafodd yr Ŵyl Wanwyn ar 17/18 Mai ei chefnogi gan 11 aelod yn stiwardio'r stondin a rannwyd. Helpodd aelodau o'r tîm Digwyddiadau, Martin Anderson, Alan Burford, Vicky Davies, Jill and Graham Wheeler, i osod a dymchwel y stondin. Bu'r stondin yn boblogaidd gan aelodau'r cyhoedd a gwenynwyr, a chodwyd swm bach o arian i Bees Abroad wrth rolio canhwyllau. Darparodd Alan gwch arsylwi gan ddefnyddio'r un y mae CGC newydd ei brynu.

Yn ystod y Sioe Frenhinol, 21 i 24 Gorffennaf, roedden ni mewn pabell fawr newydd yn y pentref Garddwriaeth. Helpodd 18 aelod i stiwardio'r stondin dros y pedwar diwrnod; rhannon ni'r stondin â thîm SBI. Mae'n rhaid diolch i aelodau canlynol y tîm digwyddiadau a helpodd o ran gosod a rhedeg y stondin yn llwyddiannus. Martin Anderson, Vicky Davies, Jill a Graham Wheeler.

Mae'r gwaith i gynllunio Cynulliad Gwanwyn 2026 ar y gweill gyda masnachwyr a phedwar siaradwr wedi'u trefnu:

Anerchiad agoriadol – Bees for Development (Will Van Blyderveen neu Chris Keywood, Rheolwyr Prosiect)

Professor Robert Pickard – Atomau, Maeth a Bywyd, (noddwyd gan NDB)

Lynfa Davies – Rheoli niferoedd Cytrefi (noddwyd gan BKA Conwy / Schroeders Greencoat)

Richard Rickett – Gwenyn a Choed: Partneriaeth Hynafol

Stephen Riley – Ymwrthedd Varroa (wedi'i noddi gan BDI)

Cafodd y tîm gyfarfod bedair gwaith yn ystod y flwyddyn (unwaith yn rhithiol) a mynychodd Jill Wheeler, fel yr Ysgrifennydd Digwyddiadau, gyfarfod o Bwyllgor Sioe Fêl Genedlaethol Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru.

Y Pwyllgor Golygyddol – gan gynnwys Adroddiad y Golygydd.

Mae'r pwyllgor Golygyddol yn cwrdd yn rhithwir cyn pob rhifyn sydd i ddod o Gwenynwyr Cymru er mwyn edrych dros y cylchgrawn drafft, ac i gynllunio pa ddeunydd sydd ei angen neu sydd wedi cael ei dderbyn ar gyfer y rhifyn canlynol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ym misoedd Mawrth, Mehefin, Awst a Rhagfyr. Mae'r tîm yn cadw rhestr ddynamig o bynciau ac awduron posibl i lenwi pob rhifyn, ac anfonir ebost at aelodau cyn y terfyn amser i'w hatgoffa i gyfrannu deunydd.

Mae'r tîm, sy'n ymwybodol bod llai o incwm oherwydd bod llai o incwm hysbysebu a chynnydd cyffredinol i gostau deunyddiau argraffu, yn edrych ar nifer o ffyrdd er mwyn gallu parhau i gynhyrchu copi caled o'r cylchgrawn. Mae hyn yn cynnwys lleihau pwysau'r papur, lleihau maint y ffont (ac felly nifer y tudalennau heb gyfaddawdu ar faint y cynnwys) a chael dyfynbris cystadleuol gan argraffwyr eraill.

Golygydd

Rydyn ni wedi cynhyrchu pedwar rhifyn o'r cylchgrawn eleni gyda chyfanswm o 132 tudalen gydag amrywiaeth dda o erthyglau ymarferol, technegol a difyr, ac adolygiadau llyfrau. Rydyn ni wedi cefnogi Cynulliad Gwanwyn CGC drwy hysbysebu a chynhyrchu erthyglau gan y siaradwyr. Diolch i bob un sydd wedi ysgrifennu erthyglau ac i olygydd *BBKA News* am ganiatâd i ailgyhoeddi erthyglau o'u cylchgrawn nhw. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Golygyddol am eu cefnogaeth i ddod o hyd i erthyglau, i Vicky Davies am ei chefnogaeth o ran cynhyrchu'r cylchgrawn ac i Elin Meek am olygu'r erthyglau Cymraeg eu hiaith.

Mae costau argraffu'r cylchgrawn wedi codi dros y flwyddyn a gwnaethon ni arbedion sylweddol ar rifyn y gaeaf drwy newid o Stephens and George i WPG Ltd o'r Trallwng, a thrwy leihau pwysau'r papur o 115 gsm i 90 gsm. Dydy'r newid hwn i bwysau'r papur ddim wedi newid ansawdd sut mae'r cylchgrawn yn edrych na'r profiad darllen chwaith, a byddwn ni'n parhau gyda hyn ar gyfer rhifynnau'r dyfodol.

O ganlyniad i'r penderfyniad i beidio â hysbysebu am werthu gwenyn byw, collwyd refeniw hysbysebu o £636, a oedd yn cynnwys 2 hysbyseb x 0.25 tudalen yn rhifynnau'r gwanwyn a'r haf gan ddau gwmni (cyfanswm gwerth £240) a 4 hysbyseb x 0.5 tudalen gan un cwmni (gwerth £396). Newidiodd un cwmni ffocws ei hysbyseb o werthu gwenyn a daliodd ati gyda 4 hysbyseb x 0.25 tudalen. Yn ogystal, rhoddodd dau hysbysebwr offer gwenyna y gorau i hysbysebu felly collwyd 2 x 4 hysbyseb x 0.5 tudalen (cyfanswm gwerth £792).

Gwefeistr

Mae ystadegau mynediad manwl yn cael eu casglu'n rheolaidd ac mae croeso i bawb eu cael oddi wrth y Gwefeistr o holi amdanyn nhw. Mae'r defnydd yn sefydlog ar y cyfan ac yn debyg iawn i'r llynedd – yn fisol gallen ni ddisgwyl 5000-6000 o ymweliadau gan 4000 o bobl wahanol. Mae mwyafrif llethol defnyddwyr y wefan o'r DU, ac mae'r rhan fwyaf o'r ymweliadau'n fyr iawn (llai na 1 funud). Mae amrywiaeth o gyhoeddiadau wedi bod yn ddefnyddiol i bobl eu lawrlwytho, yr amlaf yw "Rheoli Heidiau".

Ychydig iawn y mae cynnwys y wefan wedi newid, ac eithrio diweddariadau rheolaidd o bryd i'w gilydd fel y wefan. Bydd croeso i unrhyw awgrymiadau am bethau ychwanegol neu newidiadau. Felly hefyd, mae'n bosibl postio eitemau diddorol o ran newyddion yn gyflym iawn. Mae cynlluniau ar y gweill i

aildrefnu'r archif gweminarau er mwyn hwylustod mynediad, ac i lunio llyfrgell electronig o ddeunyddiau dysgu unigol y Gymdeithas sy'n addas i gael eu dosbarthu'n ehangach.

Hefyd, mae'r gwefeistr yn gweinyddu cyfeiriadau e-bost CGC – eleni bu sawl ymgais i we-rwydo (phishing) rhai o'r rhain ond mae modd defnyddio synnwyr cyffredin bron bob amser i'w baglu nhw. Serch hynny, rydyn ni'n atgoffa pawb i drin negeseuon electronig anarferol yn ofalus: byddai'n llawer iawn gwell gennym gael neges am rywbeth sy'n ddiniwed yn y pen draw na bod unigolion di-fai yn cael eu denu i sgâm.

Roedd Cymdeithas Gwenynwyr Cymru wedi bod yn bwrw ei phen yn erbyn cwota storio ei darparwr ond cafodd hyn ei ddatrys drwy brynu mwy o le am bris rhesymol iawn. Serch hynny, blychau post unigolion sy'n cymryd y rhan fwyaf o'r lle. Dydyn ni byth yn gofyn i neb ddileu unrhyw beth nad yw wedi'i ddyblygu'n ddiogel mewn man arall, ond dydy blychau post ddim yn lleoedd da i'w defnyddio fel archif gynradd. Cysylltwch â'r gwefeistr ar unrhyw adeg i gael arweiniad yn y maes hwn.

Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Penderfynodd y Tîm Rheoli yn 2024 y dylai CGC benodi Swyddog Rhywogaethau Estron Goresgynnol o blith ei Hymddiriedolwyr er mwyn arwain ar weithgaredd y Gacynen Felyngoes (Asia) yng Nghymru. I ddechrau, roedd y drafodaeth am benodi arweiniad ar Gacynen Asia, ond gan fod Chwilen Fach y Cwch yn bresennol yn Ewrop a Tropilaelaps yng Ngogledd Ewrop, penderfynwyd ehangu'r swydd / ei gwneud yn addas i'r dyfodol. Bydd Wally Shaw yn dal i arwain ar bolisi ac arweiniad ar Varroa.

Strategaeth ymateb CGC i'r bygythiad posibl gan y Gacynen Felyngoes i wenyna, gwenynwyr a bioamrywiaeth yng Nghymru oedd gofyn i'r Cymdeithasau benodi Cydlynydd a dilyswyr y Gacynen Felyngoes er mwyn sicrhau, cyn belled ag oedd yn bosibl, fod modd cadarnhau adroddiadau ei bod wedi cael ei gweld.

Does dim adroddiad bod unrhyw un wedi gweld y Gacynen Felyngoes yng Nghymru neu'n agos i'w ffiniau ond mae'r achosion wedi dod yn nes, un yn Runcorn heb fod ymhell o ffin Cymru ac un ar Lannau Merswy yn ogystal â dwy yn Ne Iwerddon. Mae nifer y nythod a ddinistriwyd yn Lloegr yn 2025 – 162 – yn fwy na dwbl y nifer yn 2023 – 72, sef y flwyddyn waethaf flaenorol ac mae hyn yn cynyddu perygl ymledu. Credir bod gaeaf caled a gwlyb 2023/24 wedi cyfyngu ar nifer breninesau'r Gacynen Felyngoes a lwyddodd i oroesi a'r gobaith yw y bydd gaeaf 2025/26 yn gwneud yr un fath. Dull Cymdeithas Gwenynwyr Cymru yw dal ati gyda'r strategaeth Cydlynydd/dilysydd ac mae Pwyllgor Cydlynwyr y Gacynen Felyngoes wedi cwrdd chwe gwaith yn 2025 ac mae'r nifer cyffredinol sy'n mynychu wedi bod yn fwy cyson ac adeiladol nag yn y gorffennol. Mae'r cyfarfodydd diwethaf wedi penderfynu y dylai pob Cymdeithas bellach recriwtio a hyfforddi dilyswyr ac arsylwyr a gosod gorsafoedd abwyd a/neu drapiau dethol o ddiwedd mis Chwefror 2026 i edrych am freninesau'r Gacynen Felyngoes a allai fod wedi goroesi'r gaeaf. Anfonwyd arweiniad i Gydlynwyr Cymdeithasau ac i Ysgrifenyddion Cymdeithasau. Hefyd, cyhoeddwyd erthyglau a diweddariadau ar y Gacynen Felyngoes ym mhob rhifyn o *Gwenynwyr Cymru* yn 2025. Byddai ER2 drwy BDI yn helpu gyda'r cyfathrebu a'r mapio.

Ni fyddai arsylwadau gan wenynwyr yn unig yn ddigonol mewn gwlad fel Cymru gyda phoblogaeth wasgaredig felly mae'n bwysig ein bod ni'n parhau i wneud yr hyn a allwn i godi ymwybyddiaeth yn y

boblogaeth yn gyffredinol ac mewn cyrff cenedlaethol o ran sut i adnabod y Gacynen Goesgoch a sut i roi gwybod iddi gael ei gweld.

I helpu gyda hyn, mae Paul Pearce a'i gydweithwyr ym Meirionydd wedi cynhyrchu gweminar i roi arweiniad sydd ar gael i unrhyw un ei ddefnyddio. Yn ogystal, maen nhw hefyd wedi cynhyrchu cyfres o ganllawiau un dudalen i ddilyswyr a'r rhai sy'n monitro.

Swyddog Technegol

Dydw i ddim yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau nodedig yng Nghymru yn ystod 2025. Rhoddodd yr Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol wybod am gynnydd yn nifer yr achosion o EFB ond roedd yr achosion o AFB yn isel. Bu cynnydd enfawr yn niferoedd y Gacynen Felyngoes, yn Ne a De-ddwyrain Lloegr yn bennaf, ond dim un yng Nghymru. Rhoddodd hyn faich trwm ar y Gwasanaeth Archwilio Gwenyn ond dydw i ddim yn siŵr i ba raddau y tynnodd hyn sylw oddi ar ddyletswyddau eraill.

Y Cnwd Mêl

O ganlyniad i gyfnod o dywydd da ym misoedd Ebrill a Mai, cafwyd y cnwd gorau o fêl y gwanwyn am rai blynyddoedd ond cyfyngodd amodau sychder ar y prif gnwd yn y rhan fwyaf o ardaloedd.

Ymwrthedd Varroa

Siaradodd Stephen Martin am y pwnc yng Nghynulliad CGC yn 2025, i'r rhai sydd eisiau rhagor o wybodaeth am y pwnc, y llyfr a gyhoeddwyd gan Northern Bee Books gan Stephen Riley (***The Honey Bee Solution - A practical guide to beekeepers***) yw'r ffynhonnell wybodaeth orau. Fodd bynnag, nid yw hon yn ffordd hawdd ei chymryd, yn enwedig i'r gwenynwr sydd â nifer bach o gytrefi'n unig ac nad yw eisiau bod mewn perygl o'u colli nhw. Mae'n anodd rhoi cyngor iddyn nhw o ran beth i'w wneud. Cyngor yr Uned Wenyn Genedlaethol (NBU) o hyd yw trin cytrefi er mwyn cadw poblogaeth y gwiddon o dan lefel beryglus. Mae angen i unrhyw un sydd eisiau peidio â rhoi triniaeth wneud hynny'n ofalus a chan ddeall y broses yn llawn. Bydd Cymdeithas Gwenynwyr Cymru yn cyhoeddi arweiniad yn ystod 2026.

Cyswllt Chwistrellu

Ni chafwyd ymateb uniongyrchol gan NBU nag awduron canllaw chwistrellu'r Llywodraeth i'n ceisiadau am ddiweddaru mecanwaith cysylltu Chwistrellu Cymru. Ond mae dogfennau amrywiol y Llywodraeth sy'n dangos pwyntiau cyswllt ar gyfer cydlynu chwistrellu wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r cysylltiad â Chymdeithas Gwenynwyr Cymru drwy wefan CGC.Mae'r newid hwn yn awgrymu y cafodd ein ceisiadau eu rhoi ar waith er na chawson nhw eu cydnabod. Dydyn ni ddim yn ymwybodol o unrhyw faterion yn ymwneud â chwistrellu yn ystod 2025 nad ydyn nhw wedi cael eu rheoli gan fecanweithiau presennol.

Byddai'n dda gan y Tîm Rheoli (TRh) o hyd petai modd recriwtio arbenigwr chwistrellu os oes rhywun o blith yr aelodau sy'n barod i roi cymorth i'r TRh gyda'r dasg fach ond hanfodol hon.

Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (BHAF)

Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (BHAF)

Mae'r Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn yn grŵp a noddir gan DEFRA sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl brif sefydliadau sy'n ymwneud â chadw gwenyn yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Fforwm yn cynnwys DEFRA, FERA, APHA, yr Uned Wenyn Genedlaethol, y BBKA, Cymdeithas Ffermwyr Gwenyn, BDI a ni yng Nghymdeithas Gwenynwyr Cymru. Yr amcan yw cydweithio i ddatblygu ac i roi'r arweiniad gorau ar iechyd gwenyn i wenynwyr o bob math. Cynhaliodd y BHAF 4 cyfarfod ar-lein lle cynrychiolwyd CGC (ym mhob un).

Cynrychiolwyd CGC gan ddau Ymddiriedolwr o CGC – Paul Pearce a John Bowles.

Adroddodd y Fforwm hefyd am ddiweddaru taflenni a thaflenni Cynghori ar Beebase. Mae hyn bellach yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am wenyna. Trafodwyd hefyd fanteision rhannu gwybodaeth rhwng Beebase ac eR2.

Ychwanegiad newydd fu'r cyflwyniad ym mhob cyfarfod ar bapur gwyddonol diweddar ar blâu neu glefydau gwenyn. Roedd un o'r rhain ar Tropilaelaps y mae'n debyg ei fod yn dal i ymledu'n araf ar draws gogledd Ewrop. Y llynedd adroddais nad oedd yn cael ei ystyried yn berygl uniongyrchol eto ond mae ymchwil sydd ar y gweill yn awgrymu y gall ddod i'r DU ymhen y 4 i 5 mlynedd nesaf. Mae ymchwil yn parhau yn y DU ar hyn.

Swyddogaeth arall y Fforwm yw datblygu a monitro cynnydd yn erbyn Cynllun Gwenyn Iach 2030 sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Rydyn ni bellach hanner ffordd drwy'r cynllun 10 mlynedd ac mae'r cynnydd ac adolygiad yn awgrymu bod y cynnydd yng Nghymru yn unol â'r disgwyliadau.

Nododd yr adolygiad diweddaraf fod CGC wedi parhau i weithredu'r amcanion o dan y cynllun drwy'r canlynol:

*Darparu llyfrynnau addysgol newydd yn ogystal â darparu'r llyfrynnau presennol o'r newydd

*Y gyfres gweminarau

*Annog gwenynwyr i sefyll y Dystysgrif Sylfaenol gan gynnwys recriwtio dau Aseswr newydd

*Cynyddu'r niferoedd sydd â Thystysgrif Iechyd Gwenyn

*Gwerthuso Cwrs Cadw Gwenyn yr NDB gan y rhai sydd wedi ei ddilyn.

Dechreuwyd gwaith y llynedd i archwilio dwysedd poblogaethau gwenyn mêl yn y DU.

O gofio'r pryderon a fynegodd rhai cyrff o ran y gystadleuaeth rhwng gwenyn mêl a gwenyn brodorol eraill, rydyn ni'n aros yn eiddgar am ganlyniadau'r ymchwil hon.

Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol BHAF, cafodd Paul Pearce a John Bowles gyfarfodydd ar wahân â Rebekah Clarkson o APHA a Kathleen Carroll o Lywodraeth Cymru ar 16 Medi, yn bennaf i drafod gweithredu'r Cynllun Gwenyn Iach 2030 yng Nghymru. Esboniwyd y cynnydd ac yn ystod y cyfarfod gofynnon ni hefyd am gadarnhad, petai'r Gacynen Felyngoes yn cael ei gweld yng Nghymru, y byddem yn cael yr un gefnogaeth ag sy'n cael ei chynnig yn Lloegr. Yr ymateb oedd, ar sail y wybodaeth gyfredol, na fyddai gwahaniaethu rhwng y ddwy wlad.

Tasglu Pryfed Peillio

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Aberhonddu, lle rhoddodd amrywiaeth o siaradwyr gyflwyniadau'n trafod: gwirfoddoli i helpu pryfed peillio, bioamrywiaeth yn y broses gynllunio, prosiectau Gofodau Gwyllt i helpu

cadwraeth ieir bach yr haf, cynaeafu hadau blodau gwyllt ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol Plaladdwyr y DU a sut mae'n cael ei weithredu yng Nghymru. Daeth y cyfarfod i ben gyda thaith dywys o gwmpas Fferm Tŷ Mawr, ger Aberhonddu.

Roedd cyfarfod olaf y flwyddyn yn ymwneud â gwaith cyrff amrywiol sy'n ymwneud â mentrau cadwraeth dirwedd a'u pwysigrwydd i bryfed peillio.

CONBA (Cyngor Cymdeithasau Gwenyna Cenedlaethol – Y DU)

Roedd dau gyfarfod o CONBA yn ystod y flwyddyn ym mis Mawrth a mis Hydref lle cynrychiolodd Selwyn Runnett CGC. Y pynciau a drafodwyd oedd:

- Cyflwr y marchnadoedd mêl yn y DU a'r UE
- Ansawdd mêl a llygru mêl
- Colli cytrefi dros y gaeaf
- Mewnforio breninesau, plâu a chlefydau (gan gynnwys achosion o AFB ac EFB a'r bygythiad gan y gacynen felyngoes)
- IMYB 2026 (Cyfarfod Rhyngwladol Gwenynwyr Ifanc/International Meeting of Young Beekeepers)
- Apimondia 2025 (cynhaliwyd yn Copenhagen)

NDB (Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyna)

Ni chynhaliwyd cyfarfod o NDB yn 2025 y cafodd CGC wahoddiad iddo.

Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (RWAS)

Gyda'r symud i ardal newydd ar faes y sioe, etholwyd cadeirydd newydd ar gyfer 2025-2027: Chris Fairhurst.

Hefyd trafodwyd y canlynol:

- Cyfansoddiad y Pwyllgor
- Y safle newydd a'r trefniadau yn y pentref garddwriaeth (rydyn ni'n aros am ddiweddariadau ar gyfer 2026).
- Posibilrwydd o gael ardal gyda gwenyn byw (yn ogystal â'r cwch arsylwi)
- Amserlen Sioe Fêl 2026 – dosbarthiadau, rheolau, beirniaid a gwobrau. Yr amserlen derfynol i'w hanfon drwy ebost at ysgrifennydd CGC i'w hanfon allan i gymdeithasau (ac aelodau) Cymdeithas Gwenynwyr Cymru.
- Prisiau mêl yn Sioe 2026

Archif.

Mae Archifau CGC yn dal i gael eu cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ac ar gyfrifiadur. Mae'r ddwy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd.

ADRODDIADAU A ATODWYD

Atodiad 1: Aelodaeth 2025

Atodiad 2: Cyfrifon Blwyddyn Ariannol 2025

Atodiad 3: Cyllideb Diwedd Blwyddyn 2025 a Chyllideb 2026

Datganiad: Mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan iddynt gymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod

Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen.

Llofnod:

Enw llawn: Selwyn Runnett

Swydd: Cadeirydd

Dyddiad:

Welsh Beekeepers' Association

Accounts for the Year ended

31st December 2025

Registered Charity No 509929

Prepared by Graham Wheeler, WBKA Treasurer

Profit and Loss Account for the year ended 31st December 2025

	Notes	2025 £	£	2024 £	£
Income					
Capitation	1	26,532.00		18,927.00	
Individual Members - Fees	2	805.35		1,137.15	
Welsh Beekeepers Advertising	3	3,457.80		4,269.10	
Donations and Sundry Income	3a	94.64		344.64	
Convention					
Income	4	6,680.38		6,855.62	
Other Income					
Bank Interest		159.90		165.97	
Exams Income	5	780.00		505.00	
Training	6	300.00		1,363.94	
Miscellaneous		-		-	
			38,810.07		33,568.42
Expenditure					
Administration	7	69.06		108.63	
Special Project	8			887.00	
Donations and Subscriptions	9	680.00		570.00	
Translation Costs	10	468.09		407.19	
Sundry expenses				8.00	
Bee Disease Insurance		177.35		213.15	
Software	13	2,217.98		3,295.61	
Insurance	11	2,731.49		2,662.55	
Exams Expenses	5	680.09		1,038.15	
Training costs	6	337.35		3,159.53	
Webinar Speaker Costs		473.82		150.00	
Meetings Internal		-		-	
Meetings Education		50.00		8.10	
Meetings External		-		40.50	
Meetings Editorial		-		-	
Meetings Council		45.00		157.80	
Meetings Trustees		-		-	
Welsh Beekeepers Magazine	15	16,222.50		15,323.40	
RWAS Spring Fair		282.46		245.03	
RWAS Summer		252.68		267.05	
WBKA Spring Convention	4	7,139.45		6,775.56	
Depreciation	12	809.17		876.92	
			32,636.49		36,194.17
Surplus/Deficit for the Year			**6,173.58**		**- 2,625.75**

Balance Sheet as at 31st December 2025

			Opening value	Depreciation	Closing book value	Net. Book Value			Original cost
				2025		2024	2024	2023	
		Notes	£	£	£				
Fixed Assets	**Location**								
Banner	Events Sec.		110.06	22.01	88.05	88.05	110.06	137.57	1,026.00
Banner	Events Sec.		50.00	-	50.00	50.00	50.00	50.00	186.00
Editors Laptop HP250 G8	Editor		368.23	73.65	294.58	294.58	368.23	460.29	899.00
Treasurer's Laptop	Treasurer		60.65	10.65	50.00	50.00	60.65	75.82	451.90
Virtual Display Hive	Events sec.		50.00	-	50.00	50.00	50.00	57.36	273.50
6 Microscopes	Lynfa Davies		2,071.51	414.30	1,657.20	1,657.20	2,071.51	2,589.38	4,045.91
Epson Projector	Lynfa Davies		312.44	62.49	249.95	249.95	312.44	390.54	488.18
Observation Hive	Selwyn Runnett		555.36	111.07	444.29	444.29	555.36		694.20
Treasurer's Laptop new 2025	Treasurer		575.00	115.00	460.00	460.00			575.00
Total Depreciation		12		809.17					
Total Fixed Assets value			**4,153.24**		**3,344.07**	**3,344.07**	**3,578.24**	**3,760.96**	**8,639.69**

Current Assets		**2025**		**2024**	
HSBC Bank Account		26,990.68		13,651.09	
Scottish Widows 90 Day Account	14	-		10,510.35	
			26,990.68		24,161.44
Total Assets :			30,334.75		27,739.68
Debtors		3,565.60		2,415.10	
			3,565.60		2,415.10
			33,900.35		30,154.78
Creditors					
Creditors		1,208.51		3,818.37	
Prepayments		654.25		472.40	
			1,862.76		4,290.77
Total Assets			32,037.59		25,864.01
Opening Accumulated Funds			25,864.01		28,489.76
Surplus			6,173.58		-2,625.75
Closing Accumulated Funds			32,037.59		25,864.01

Notes to the Accounts for the year ended 31st December 2025

1 **Capitation**

Represents 2045 Full Registered Members in 2024 along with 332 Partner members (Beekeepers living at the same address as a Full Registered Member) the number of registered members is 58 less than last year but with the transition to Full plus partners it will probably take a few years to see overall trends again.

This constitutes the major income of the Association at £12 per Registered member and £6 per Partner. Out of this is paid the publishing costs of the Welsh Beekeeper Magazine, Members Public Liability insurance and the Officers Insurance.
The balance is used to fund the running costs of the Association and initiatives for the benefit of members such as booklets and training.

2 **Individual Membership**

This is made up of £30 capitation per member plus their BDI premium, there were 23 direct members in 2025 down from the 35 direct members in 2024.

3 **Welsh Beekeeper Magazine Advertising Revenue**

Advertising income has dropped significantly this year only a small part of this is attributable to the decision to stop advertising the sale of bees.

3a	**Donations & Sundry Income**	£	£
	Donations	94.64	
			94.64

4 **Convention Accounts**

	Income	£	£
	Entrance Money	1594.58	
	Early Bird Ticket sales	1528.80	
	Trade Stands	3257.00	
	BDI Donation	300.00	
			6680.38
	Expenses		
	Venue Hire	3270.00	
	Equipment Hire	968.40	
	Accommodation	635.00	
	Advertising	50.00	
	Speakers	904.70	
	St Johns Ambulance	265.20	
	Sound System	564.00	
	Programme	226.51	
	Sundry expenses	255.64	
			7139.45
	WBKA Contribution		-459.07

5 **Examinations**

	Income		
	Basic Assessment fees	600.00	
	Bee Husbandry fees	180.00	
			780.00
	Expenses		
	Basic Assessment sundry expenses	0	
	Basic Assessors' expenses	510	
	Basic Assessment expenses (postage certificates)	35.09	
	Basic Assessment total expenses		545.09
	Surplus		234.91
	Exams venue	0.00	
	Exams past papers	0.00	
	BBKA Exam Membership sponsorship	135.00	
	Exams Expenditure		135.00

6 **Training Income & Expenditure**

Only one workshop was run in 2025 using a new partnership model with the host association contributing venue costs while the WBKA covered tutor and travel costs. A program of events based on further developing this model across Wales has been budgeted in 2026

	Income	£
	Workshop receipts	300.00
	Expenditure	
	Training Venues	0.00
	Sponsorship of members on teaching beekeeping course	0.00
	Courses and Workshop provision	337.35
		337.35
	WBKA Contribution	37.35

7 **Administration**

	Bank charges	46.96	HSBC have now removed bank charges
	Printing costs	22.10	
		69.06	

8 **Special Projects**

No booklets were printed or reprinted in 2025 the planned expenditure has been forwarded to the 2026 budget.

9 **Subscriptions and donations**

RWAS Membership	230.00
CONBA Membership	100.00
UK National Honey Show Membership	100.00
RWAS Honey Show Prize	250.00
	680.00

10 **Translation Costs**

Annual report, booklets and policies	468.09
	468.09

11 **Insurance**

Members Combined Liability & Trustee & Officers Insurance	2731.49
	2,731.49

12 **Depreciation**

Items over the value of £100 are depreciated at a rate of 20% until there is a residual balance of £50. They are kept at this value until such time as it is decided to dispose of the asset.

13 **Software**

Webinar and Meetings Software	684.09
Vimeo webinar storage system	108.00
Web Page & Domain	80.39
Colibri IT Business support	108.80
Adobe InDesign and photo manipulation software subs.	381.71
MS Office 365 subscription	104.99
eR2 subscription	750.00
	2,217.98

14 **Scottish Widows Reserve Bank Account**

Scottish Widows ceased to provide CAF banking facilities in 2025 funds were returned to WBKA HSBC current account. Options to move the reserve to a deposit account offering a interest on the reserve balance will be evaluated and actioned in 2026.

15 **Welsh Beekeepers Magazine**

	£
Spring	4,219.24
Summer	4,734.23
Autumn	4,573.41
Winter	2,695.62
	16,222.50

A new printing and mailing company was sourced for the winter edition this along with modifications to the specification has seen a significant improvement in the cost of providing the magazine

Schedule of Income for the year ended 31st December 2025

	£
Capitation - Income from member Associations	26,532.00
Individual Membership	805.35
Advertising Income	3,457.80
Sundry Income & Donations	94.64
Income from the Convention	6,680.38
Bank Interest	159.90
Examinations	780.00
Workshop fees	300.00
Misc.	0.00
	38,810.07

CHARITY COMMISSION FOR ENGLAND AND WALES

Independent examiner's report on the accounts

Section A Independent Examiner's Report

Report to the trustees	Charity Name Welsh Beekeepers Association		
On accounts for the year ended	31st December 2025	**Charity no (if any)**	509929
Set out on pages	1		

I report to the trustees on my examination of the accounts of the above charity ("the Trust") for the year ended 31 / 12 / 2025.

Responsibilities and basis of report

As the charity's trustees, you are responsible for the preparation of the accounts in accordance with the requirements of the Charities Act 2011 ("the Act").


I report in respect of my examination of the Trust's accounts carried out under section 145 of the 2011 Act and in carrying out my examination, I have followed all the applicable Directions given by the Charity Commission under section 145(5)(b) of the Act.

Independent examiner's statement

I have completed my examination. I confirm that no material matters have come to my attention in connection with the examination which gives me cause to believe that in, any material respect:

- the accounting records were not kept in accordance with section 130 of the Charities Act; or
- the accounts did not accord with the accounting records; or
- the accounts did not comply with the applicable requirements concerning the form and content of accounts set out in the Charities (Accounts and Reports) Regulations 2008 other than any requirement that the accounts give a 'true and fair' view which is not a matter considered as part of an independent examination.

I have no concerns and have come across no other matters in connection with the examination to which attention should be drawn in this report in order to enable a proper understanding of the accounts to be reached.

Signed:		**Date:**	10th July 2026
Name:	Stephanie Craney CIMA Dip MA MAAT		
Relevant professional qualification(s) or body (if any):	Chartered Institute of Management Accountants Association of Accounting Technicians		
Address:	Llewesog Hall Cottage, Prion, Denbigh LL16 4RY		